# ANELU AT YR ANHYGOEL

1918 – 2018



# Cymorth mewn trychineb

## Canllaw'r Athro

ROYAL ACADEMY OF ENGINEERING

RAF 100

2018. BLWYDDYN PEIRIANNEG

Nod yr adnodd hwn yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ymchwilio i effaith gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) ar ddarparu cymorth dyngarol.



# Cysylltiadau â'r cwricwlwm

## Lloegr

| Gweithgaredd | Cyfnod Allweddol | Pwnc | Cwricwlwm Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| **Amser i wneud** | CA2 | *Gwyddoniaeth* | **Grymoedd:** egluro bod gwrthrychau sydd ddim yn cael eu cynnal yn cwympo tua'r Ddaear oherwydd grym disgyrchiant yn gweithredu rhwng y Ddaear a'r gwrthrych sy'n cwympo. |
| **Amser i wneud** | CA2 | *Dylunio a thechnoleg* | Dylunio<br>Gwneud |
| **Amser i wneud** | CA3 | *Dylunio a thechnoleg* | Dylunio<br>Gwneud |

## Yr Alban

| Gweithgaredd | Pwnc | Testun | Profiadau a chanlyniadau |
|---|---|---|---|
| **Amser i wneud** | *Gwyddoniaeth* | Grymoedd | SCN 2-07a |
| **Amser i wneud** | *Technolegau* | Crefft, dylunio, peirianneg a graffeg | TCH 2-09a, TCH 3-09a |

## Cymru

| Gweithgaredd | Cyfnod Allweddol | Pwnc | Cwricwlwm Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| **Amser i wneud** | CA2 | *Gwyddoniaeth* | **Sut mae pethau'n gweithio:** gwahanol fathau o rymoedd<br>**Sut mae pethau'n gweithio:** sut mae grymoedd yn gallu effeithio ar symudiad. |
| **Amser i wneud** | CA2 | *Dylunio a thechnoleg* | Dylunio<br>Gwneud |
| **Amser i wneud** | CA3 | *Dylunio a thechnoleg* | Dylunio<br>Gwneud |


## Gogledd Iwerddon

| Gweithgaredd | Cyfnod Allweddol | Pwnc | Cwricwlwm Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| **Amser i feddwl** | CA2 | *Y byd o'n cwmpas* | **Llinyn 2:** Symudiad ac egni: sut mae symudiad yn gallu cael ei gyflymu gan amser a digwyddiadau naturiol fel rhyfeloedd, daeargrynfeydd, newyn a llifogydd. |
| **Amser i wneud** | CA2 | *Y byd o'n cwmpas* | **Llinyn 2:** Symudiad ac egni: achosion ac effaith egni, grymoedd a symudiad |

## Paratoi

- Gofalwch fod yr holl ddeunyddiau ac offer sydd eu hangen ar gael mewn da bryd cyn y sesiwn. Mae'r deunyddiau a chydrannau hanfodol wedi'u cynnwys ar y rhestr adnoddau isod.
- Dylid cynnal asesiad risg llawn cyn y sesiwn.
- Mae disgwyl i'r sesiwn bara 60 munud.
- Gofalwch fod technoleg ar gael i ddangos y deunyddiau fideo perthnasol.

Mae'r adnodd hwn yn gysylltiedig â meddylfryd peirianneg (Engineering Habits of Mind (EHoM)). I wybod mwy am hyn, trowch at y daflen wybodaeth a roddwyd neu ewch i www.raeng.org.uk/ltbae.




## Rhestr adnoddau

**Ar gyfer y gweithgaredd hwn, byddwch angen y canlynol ar gyfer pob grŵp:**

- Un copi o daflen gymorth un cymorth mewn trychineb
- Un wy
- Amrywiol ddeunyddiau ar gyfer adeiladu glaniwr wy, er enghraifft: bagiau plastig, llinyn, defnydd.



Y Weinyddiaeth Amddiffyn/ Hawlfraint y Goron




Y Weinyddiaeth Amddiffyn/Hawlfraint y Goron

# Cymorth mewn trychineb yr RAF

**Mae gan yr RAF draddodiad hir o ddarparu cymorth mewn trychineb yn y DU ac ym mhedwar ban byd.**

Y newyn yn Ethiopia rhwng 1983 a 1985 oedd y newyn gwaethaf i daro'r wlad mewn canrif. Mewn ymateb i'r newyn, Ymgyrch Bushel oedd un o'r gollyngiadau o'r awyr mwyaf o'i fath, gyda 32 tunnell fetrig a mwy o gyflenwadau'n cael eu dosbarthu i bobl newynog Ethiopia.

Yn 2009, roedd yr RAF yn allweddol wrth gynorthwyo trigolion Cumbria ar ôl i lifogydd daro rhyw 500 o gartrefi wrth i lefel y dŵr godi i 2.5 metr a mwy. Defnyddiwyd hofrenyddion yr RAF i godi o leiaf 50 o bobl i ddiogelwch; roedd rhai o'r rheini a achubwyd gan yr RAF wedi gorfod torri drwy doeau eu cartrefi er mwyn cael eu cludo i ddiogelwch.

Yn 2015, defnyddiwyd hofrenyddion Chinook yr RAF i ddosbarthu bagiau tywod i Swydd Gaerhirfryn i atal difrod llifogydd yn yr ardal.



## AMSER I FEDDWL

**Mae'r RAF wedi cael cais i roi cymorth ar ôl daeargryn yn Nepal. Digwyddodd y daeargryn ym mis Tachwedd, yng nghanol y tymor sych pan mae'r tymheredd yn disgyn i 15°C yn y dydd ac mor isel â 7°C yn y nos.**

Mewn grwpiau, nodwch rai o'r pethau mae pobl eu hangen ond nad ydynt yn gallu cael atynt yn ystod ac ar ôl daeargryn.

Defnyddiwch y cardiau i'w trefnu yn ôl yr hyn sydd ei angen gyntaf. Defnyddiwch y cardiau gwag i ychwanegu unrhyw syniadau eraill sydd gan eich grŵp.

### Canllawiau ar gyfer arweinydd y gweithgaredd STEM

Llungopiwch a thorrwch y cardiau ar daflen gymorth un cymorth mewn trychineb. Ar ôl i'r myfyrwyr drafod beth sydd ei angen ar ôl trychineb naturiol, trafodwch fel dosbarth pa drefn y mae pob grŵp wedi penderfynu arno.

Ni fydd pob grŵp yn cytuno ar drefn. Defnyddiwch hyn fel cyfle i'r grwpiau ddadlau o blaid eu penderfyniad.

## AMSER I WNEUD

**Weithiau does dim modd i awyren neu hofrennydd lanio i ddosbarthu cymorth, felly mae'n rhaid gollwng nwyddau o'r awyr tra bod yr awyren neu hofrennydd yn symud.**

Dyluniwch declyn glanio ar gyfer wy i sicrhau nad yw'n torri pan mae'n taro'r ddaear.

Wrth ddylunio'ch teclyn, meddyliwch sut gallwch chi leihau'r grym trawiad pan mae'r wy yn glanio.

### Canllawiau ar gyfer arweinydd y gweithgaredd STEM

Dylai myfyrwyr weithio mewn timau i ddylunio teclyn glanio ar gyfer wy. Mae dwy ffordd o leihau'r ardrawiad ar yr wy: ei arafu gyda pharasiwt a diogelu'r wy.

Dylid lansio'r wyau o uchder, naill ai i lawr grisiau neu allan o ffenest. Dylid cynnal asesiad risg llawn cyn cynnal yr arbrawf hwn.



Y Weinyddiaeth Amddiffyn/Hawlfraint y Goron

ROYAL ACADEMY OF **ENGINEERING**

## Academi Frenhinol Peirianneg

Fel academi genedlaethol y DU ar gyfer peirianneg, rydym ni'n dwyn ynghyd y peirianwyr mwyaf llwyddiannus a dawnus gydag un nod: hybu a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes peirianneg.

## Mae gennym ni bedair her strategol:

### Sicrhau bod y DU ar flaen y gad ym maes arloesedd peirianyddol

Cefnogi datblygiad arloesedd a busnesau peirianyddol llwyddiannus yn y DU er mwyn creu cyfoeth, swyddi a buddiannau i'r genedl.

### Mynd i'r afael â'r argyfwng o ran sgiliau peirianneg

Diwallu anghenion y DU drwy ysbrydoli cenhedlaeth o bobl ifanc o bob cefndir a rhoi iddynt y sgiliau ansawdd uchel sydd eu hangen arnynt i gael gyrfa werth chweil ym maes peirianneg.

### Rhoi lle canolog i beirianneg mewn cymdeithas

Gwella ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth y cyhoedd o rôl hollbwysig peirianwyr ym mhob man.

### Arwain y proffesiwn

Manteisio ar arbenigedd, egni a gallu'r proffesiwn i osod cyfeiriad strategol ar gyfer peirianneg a chydweithio ar atebion i brif heriau peirianneg.

RAF 100

Nod y Rhaglen Ieuenctid a STEM RAF 100 yw cynnwys ac ysbrydoli pobl ifanc drwy feithrin eu diddordeb mewn llwybrau gyrfa peirianyddol a thechnegol.

O arbenigwyr seiber i awyrofod, awyrennau, electroneg a disgyblaethau mecanyddol, mae'r RAF wedi ymrwymo i ddefnyddio dathliadau ein canmlwyddiant i roi cyfle i bawb ac i annog mwy o amrywiaeth yn y maes hollbwysig hwn o brinder sgiliau cenedlaethol.

Academi Frenhinol Peirianneg
Prince Philip House, 3 Carlton House Terrace, Llundain SW1Y 5DG

Ffôn: +44 (0)20 7766 0600
www.raeng.org.uk

Rhif elusen gofrestredig 293074

Delweddau clawr blaen/cefn: Y Weinyddiaeth Amddiffyn/hawlfraint y Goron
Mae'r delweddau yn yr adnodd hwn wedi'u trwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored F3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence

Ailgylchwch yr adnodd hwn (mae'r clawr wedi'i drin â laminiad y gellir ei ailgylchu)